

## Y PWYLLGOR PERSONÉL

10 Ebrill 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, y Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd S Yelland a'r Cynghorydd A Wilcox.

Roedd y Cynghorydd R Owens hefyd yn bresennol, fel yr awdurdodwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2019.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12.25pm – 12.50pm)

### 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth Mr A Archer, y Cynghorydd M Evans a Mrs G Hayward.

### 2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

### 3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2019 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2019.

### 4. Penodi Cyfarwyddwr Cyfeiriad y Parc a Chynllunio

Yn unol â phenderfyniad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2019, soniwyd bod y Pecyn Swydd wedi'i ddsbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod a gofynnwyd am eu sylwadau. Roedd Mr A Archer wedi anfon rhai sylwadau dros yr e-bost, ac roedd Aelodau eraill wedi codi nifer o bwyntiau o ran manylion. Roedd y swyddogion yn hapus i wneud y diwygiadau.

Gan ddiolch i'r Aelodau am eu sylwadau, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Pecyn Swydd, wedi iddo gael ei ddiwygio, yn cael ei gyfieithu ac y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu yr wythnos ganlynol. Yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni yn y cyfarfod blaenorol, rhagwelwyd y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar 15 Mai 2019 i roi ymgeiswyr ar y rhestr fer.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Pecyn Swydd a ddsbarthwyd i'r Aelodau yn amodol ar y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod a'r sylwadau a ddaeth i law drwy e-bost.



## **5. Penodi Swyddog Monitro**

Dyweddodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau fod sgwrs a gafwyd gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghyngor Sir Penfro wedi bod yn gadarnhaol, er na chytunwyd ar ddim byd pendant hyd yn hyn. Dywedodd y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu oni fyddai cynnydd wedi'i wneud yn ystod yr wythnosau nesaf.

**NODWYD.**

